

Y Rhwydwaith Arddangos

Lleihau arferion drwg ar uned foch

Yn ddiweddar, newidiodd safle ffocws Llwyn yr Arth, Ynys Môn, y dogn ar gyfer eu moch er mwyn eithrio sinc a chopr i baratoi at waharddiad arfaethedig yn y dyfodol ar fwydo'r elfennau hyn. Un o'r canlyniadau annisgwyl i hyn oedd cynnydd mewn cnoi cynffonnau ymysg y moch. Arweiniodd y newid yn eu diet i gynydd o 10-15 diwrnod yn y dyddiau hyd lladd, ac roedd hefyd angen iddynt ddefnyddio mwy o wrthfotigau i drin heintiadau.

Gan weithio gyda Cyswllt Ffermio a'u milfeddyg, Eddie Devlin o Filfeddygon Bodrwnsiwn, bu'r fferm yn ymchwilio i statws iechyd y genfaint drwy gynnal archwiliadau post mortem i weld a oedd unrhyw broblemau iechyd cudd. Roedd canlyniadau'r profion yn dangos tystiolaeth o niwmonia ensöotig a pherfedd chwyddedig.

Cafwyd cyngor i ail-gyflwyno sinc i'r diet ac i frechu'n gynt er mwyn sicrhau bod perchyll yn cael eu diogelu yn gynharach. Nid yw cnoi bellach yn broblem, ac mae'r defnydd o wrthfotigau wedi gostwng. Bydd gwaith ymchwil yn parhau er mwyn ystyried cyfansoddion eraill ar gyfer y dogn er mwyn sicrhau bod y genfaint yn gallu ymdopi gyda rheoliadau'r dyfodol.



Lleihau cloffni yn y fuches laeth

Ar safle arddangos Graig Olway ger Brynbuga, mae lleihau lefelau cloffni a chynyddu cyfforddusrwydd y fuchch wedi cael eu nodi fel dau o brif nodau'r fferm er mwyn gwella lles a chynyddu cynhyrchiant llaeth. O ganlyniad i'r system odro wirfoddol, mae gwartheg cloff yn dueddol o ymweld â'r robot yn llai aml na gwartheg iach, felly bydd cloffni'n cael mwy o effaith ar y fuches.

Ym mis Ionawr 2020, rhoddwyd sgôr symudedd i'r gwartheg, a chawsant eu hasesu gyda'r bwriad o chwilio am arwyddion o ddermatitis digidol wrth iddynt fwydo. Gwnaed hyn gan Sara Pederson, milfeddyg arbenigol sy'n arbenigo mewn cloffni.



Yn dilyn hyn, cafodd traed yr holl wartheg eu hasesu wythnos yn ddiweddarach yn y crysh er mwyn cymharu gyda'r sgôr gweledol. Cafodd pob buwch gydag arwyddion gweledol o ddermatitis digidol ei thrin gyda gwrthfotigau trwyddedig ar y croen, a chawsant eu monitro'n agos am ddau ddiwrnod yn olynol, gan roi triniaeth eto lle bo angen.



Y cam nesaf yn y prosiect yw datblygu cynllun gweithredu rhwng y ffermwyr, milfeddyg y fferm a'r person sy'n trimio traed. Bydd canlyniadau a diweddariadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Cyswllt Ffermio.

Dethol ar gyfer geneteg effeithlon mewn buches sy'n lloia yn y gwanwyn

Amcangyfrifir fod costau magu heffer gyfnewid ar gyfer y fuches laeth oddeutu £1,800, felly mae gwneud penderfyniadau penodol ynglŷn â bridio er mwyn sicrhau bod y lloia sy'n cael eu magu'n perfformio'n dda



unwaith y byddant yn ymuno â'r fuches yn un ffordd o wneud y busnes yn fwy effeithlon.

Mae safle ffocws Mountjoy ger Hwlfordd yn defnyddio technegau dethol genomig i adnabod y lloia benyw sydd â'r potensial i fod yn fwyaf cynhyrchiol i'w magu. Casglwyd samplau ym mis Rhagfyr 2019 gan ddefnyddio teclyn penodol i gasglu sampl o'r meinwe o glust y llo.

Mae'r samplau'n cael eu dadansoddi a bydd manylion pellach ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio unwaith y byddant ar gael.


Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cerbydau awyr di-griw (UAV) – Golwg o'r awyr ym maes amaethyddiaeth


Gallai cerbydau awyr di-griw neu ddronau chwarae rôl mewn nifer o systemau amaethyddol, gan gynnwys rheoli da byw. Mae'r erthygl hon yn edrych ar ddefnydd posibl ar gyfer y dechnoleg a gofynion deddfwriaethol.

Gweithdai lechyd a Lles Anifeiliaid

Cynhaliwyd 105 Agweithdy lechyd a Lles Anifeiliaid yn ystod y cyfnod hwn drwy bractisau milfeddygol ledled Cymru. Y modiwlau mwyaf poblogaidd yn ystod y cyfnod oedd Colledion wyna Rhan 1: Erthyllu a Maeth a Colledion wyna Rhan 2: Colledion ar ôl wyna rhwng genedigaeth a diddychu o ganlyniad i'r amser o'r flwyddyn.



Mae'r graff isod yn dangos trawstoriad o fuddiolwyr fesul modiwl, gan ddangos nifer uchel o fuddiolwyr yn mynychu'r gweithdai.



6

PROSIECT WEDI CAEL
EI GYMERADWYO YN
YSTODY CYFNOD

yn
gweithio
gyda



20

O FFERMWYR A
CHOEDWIGWYR



Gwella rheolaeth maeth yn y diwydiant defaid yng Nghymru


Mae deuddeg ffermwr ar draws gogledd Cymru wedi bod yn defnyddio dull blaengar o gynllunio maeth eu mamogiaid magu sy'n cynnwys ymchwilio i anghenion diadelloedd unigol o ran elfennau hybrin, a chydbwysu hynny gyda rhesymau eraill dros ddiffyg perfformiad.

Cafodd pob un o'r diadelloedd eu profi cyn eu troi at yr hwrdd yn 2018 ac roedd anghenion ychwanegion yn amrywio, gyda rhai angen copr, rhai angen seleniwm a rhai angen sinc. Datblygwyd cynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer pob fferm, ac mewn rhai achosion, roedd modd cyfiawnhau lleihau sawl gwaith y rhoddwyd dos, gan arbed arian ac amser i'r ffermwr.


Cymerwyd samplau gwaed cyn wyna a gwnaed addasiadau pellach yn seiliedig ar y canlyniadau. Er enghraifft, roedd rhai defaid mewn perygl o ddiodef tocsaemia beichiogrwydd, ac felly cafodd y dogn ei addasu i fynd i'r afael â hynny.

Ar ôl diddychu, cymerwyd samplau gwaed unwaith eto, yn ogystal â monitro parasitiaid, a llwyddodd hyn i greu darlun o sut oedd y diadelloedd yn perfformio o ganlyniad i'r cynlluniau maetholion newydd.

Un newid positif a welwyd yw sgôr cyflwr corff y mamogiaid wrth gael eu troi at yr hwrdd yn 2019 o'i gymharu â 2018 fel y gwelir yn y siartiau isod.



Ffigwr 1. Hydref 2018 - cymedr y sgor cyflwr corff ar bob un o'r 12 fferm.



Ffigwr 2. Hydref 2019 - cymedr y sgor cyflwr corff ar 11 o'r 12 fferm. Noder fod fferm 5 wedi methu â chymryd rhan yn ystod Hydref 2019. was unable to participate in Autumn 2019.

Grwpiau Trafod

Astudiaeth Achos

Chris Williams, Clinwil Nutrition Services oedd y siaradwr gwadd yn trafod ychwanegu elfennau hybrin mewn cyfarfod grŵp trafod defaid yn Sir Gâr. Pwysleisiodd Chris rôl elfennau hybrin, mwynau a fitaminau er mwyn sicrhau twf, perfformiad ac iechyd anifeiliaid, a sut maent yn gosod sylfaen ar gyfer diet i anifeiliaid sy'n cnoi cil.

Eglurodd Chris sut mae elfennau hybrin yn cael eu rhannu'n facro fwynau (calsiwm, ffosfforws, sodiwm a magnesiwm) a micro fwynau (Copr, Sinc, Manganîs, Cobalt, Iodin, Seleniwm), ac aeth ymlaen i drafod goblygiadau posibl diffyg mwynau ar dda byw.

Mae sicrhau bod anifeiliaid cnoi cil yn derbyn diet cytbwys o ran elfennau hybrin a fitaminau yn broses gymhleth ac mae'n amrywio o un fferm i'r llall. Er mwyn greu cynllun cywir ar gyfer rhoi ychwanegion, mae'n rhaid dadansoddi'r porthiant er mwyn canfod lefelau presennol. Gellir gwneud hyn drwy gasglu samplau o borthiant neu laswelt ffres. Gyda'r wybodaeth hon, roedd ffermwyr yn gadael y cyfarfod gyda'r hyder i greu cynllun ychwanegion wedi'i deilwra ar gyfer eu fferm a ddylai gael effaith ddramatig ar berfformiad anifeiliaid.

Y Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cefnogaeth dan y Categoriâu Da Byw fel rhan o'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod:



Mae 9 o unigolion wedi derbyn cyngor un i un drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Mae 3 o grwpiau wedi derbyn cyngor drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar ddarpariaeth y Gwasanaeth Cyngori:

"Gwasanaeth a chngor gwyh, a byddem yn ei argymhell i ffermwyr eraill."

Cyfnewidfa Rheolaeth

Cyfnewidfa Rheolaeth Reuben Davies, Ionawr 2020

Pwnc: Cyrsiau gwneud caws, godro defaid yn ymarferol ac wyna

Gwlad: DU ac Iwerddon



Yn ystod mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020, teithiodd Reuben i'r DU ac i Iwerddon i gwblhau ei daith gyfnewid. Yn gyntaf, aeth Reuben i'r Ysgol Fwyd Artisan yng ngogledd Lloegr i gwblhau cwrs gwneud caws, a roddodd gipolwg defnyddiol iddo i'r broses o wneud caws ar y safle. Yna, teithiodd i dref

Cashel, Co. Tipperary yn Iwerddon i dreulio wythnos yn gweithio i Michael Crosse, sy'n godro tua 1,200 o ddefaid ddwywaith y dydd. Tra'r oedd yn Iwerddon, bu hefyd yn ymweld â ffatri caws glas Cashel. Fel rhan o'i gyfnewidfa rheolaeth, mae Reuben wedi dysgu gwybodaeth ddefnyddiol y mae'n gobeithio y bydd yn ei gynorthwyo i ddatblygu ei fusnes godro defaid ei hun ynghyd â safle cynhyrchu caws yn y dyfodol.

Cliciwch [yma](#) i ddarllen adroddiad Reuben yn llawn.

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

CLEFYD JOHNE
MEWN DEFAID



GOROESIAD PERCHYLL
- MAETHYR HWCH



MAETHY FAMOG YN YSTOD
BEICHOGRWYDD



CLAFR DEFAID



Cliciwch [yma](#) i fynd i'r wefan.

Cyrsiau Hyfforddiant

Enw'r Cwrs	Nifer yr unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel	21
Defnyddio Meddyginiaeth Filfeddygol yn Ddiogel	16
DIY AI	16
Trimio Traed Gwartheg	15
Cyflwyniad i reoli llyngyr a chyfrif wyau ysgarthol ar gyfer cynhyrchwyr defaid	11